Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru

National Independent Safeguarding Board Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Adroddiad Blynyddol

## 2024–25


## Pwy yw pwy yn y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol



Tony Young
(Cadeirydd)



Lin Slater
(Is-gadeirydd)



Carys James
(Tan haf 2025)



Artie Meakin



Des Mannion



Dave Street
(Ymunodd yn ystod hydref 2025)



John Williams
(Ymunodd yn ystod hydref 2025)

# Cynnwys


**Cyflwyniad** ........ 4

**3 neges allweddol ar gyfer diogelu – cynnydd yn ystod 2024-25** ........ 5

**Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaeth Cenedlaethol: 5 Maes Allweddol ar gyfer Effeithiolrwydd Diogelu** ........ 8

**Themâu Cenedlaethol o'r Byrddau Rhanbarthol 2024-25:** ........ 9

**Ymatebion i bob un o'r Meysydd yn 2024-25: Y 5 Cwestiwn Allweddol** ........ 10

**Partneriaeth Strategol 3 blynedd ar gyfer Datblygu Diogelu** ........ 19

**Ymrwymiadau'r Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer 2024-2027: Cydbwysedd rhwng parhad a datblygiad** ........ 20

**Gwaith y Bwrdd Cenedlaethol yn ystod 2024-2025 wrth gyflawni dyletswyddau statudol** ........ 22

**Argymhellion i'r Gweinidog 2023-2024 ac adrodd am gynnydd** ........ 29

**Argymhellion i'r Gweinidog 2025** ........ 30

# Cyflwyniad

**Mae'n bleser gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-25.**

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adlewyrchu gwaith a chyflawniadau'r Bwrdd yn ystod trydedd flwyddyn (2023-24) ei drydydd tymor ond mae hefyd yn ystyried y gwaith a wnaed yn ystod 6 mis cyntaf y flwyddyn gyfredol, adeg ysgrifennu'r adroddiad (ym mis Hydref 2025), ac agweddau ar gynlluniau'r Bwrdd ar gyfer 2025-27.

Wrth adolygu blwyddyn ddiogelu 2024-25, mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (y Bwrdd Cenedlaethol) wedi defnyddio ystod eang o ffynonellau gwybodaeth, ac mae gwaith y chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi bod yn arbennig o bwysig. Mae'r Bwrdd Cenedlaethol hefyd wedi gwneud defnydd helaeth o waith y partner ymchwil a datblygu annibynnol a gomisiynwyd gennym, sef yr Athro Michelle McManus a'i thîm o Brifysgol Metropolitan Manceinion. Mae craidd y gwaith hwn wedi'i egluro mewn dau adroddiad thematig cenedlaethol hyd yma: *Risg, Ymateb ac Adolygu: Diogelu Amlasiantaeth, Dadansoddiad thematig o adolygiadau ymarfer plant yng Nghymru* (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023) ac *Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Oedolion Cymru* (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025). Mae'r ddau adroddiad arloesol hyn wedi ychwanegu'n sylweddol at ein gallu i ddeall y darlun cenedlaethol presennol yng Nghymru, o ran effeithiolrwydd, effaith ac ansawdd systemau ac ymarfer diogelu. Adeg ysgrifennu'r adroddiad blynyddol, disgwylir y bydd adroddiad ar gael yn fuan am ganfyddiadau Adroddiad Thematig pellach a gyhoeddir bob dwy flynedd ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant, o safbwynt profiad go iawn.

# 3 neges allweddol ar gyfer diogelu – cynnydd yn ystod 2024-25

Ar ddechrau tymor presennol y Bwrdd o dair blynedd, nodwyd tair elfen a oedd yn dylanwadu ar effeithiolrwydd diogelu ac mae'r rheini wedi parhau'n allweddol. Ar ôl adolygu Adroddiadau Blynyddol 2024-25 pob un o'r chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ac ymgysylltu'n uniongyrchol â phob Bwrdd yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym isod yn rhoi sylwadau ar y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn o ran mynd i'r afael â'r tair thema gymhleth hyn.

## 1. Lefel y galw, cymhlethdod a chapasiti

### Cynnydd yn ystod 2024-25

Mae Adroddiadau Blynyddol y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn cyflwyno tystiolaeth o ymdrechion parhaus a rhai enghreifftiau ardderchog o ymyriadau y bwriedir iddynt fynd i'r afael â heriau'n ymwneud â'r gweithlu, ac mae'r rheini fel rheol yn ymatebion penodol i bwysau sy'n effeithio ar un Awdurdod Lleol. Mae'r Byrddau i gyd yn adrodd ynghylch gweithgarwch i hybu a chynnal llesiant eu grwpiau o staff. Mae hynny i'w groesawu, ac mae'n gyson â chanfyddiadau adroddiadau ac argymhellion blaenorol y Bwrdd Cenedlaethol, sef bod angen cymorth gwell a mwy systematig ar ymarferwyr. Ymddengys fod gwybodaeth ychwanegol yn awgrymu bod yna rai "arwyddion" cynnar o fwy o sefydlogrwydd, bod trosiant/cyfraddau ymadael o ran y gweithlu'n gostwng, a bod yna lai o orddibyniaeth ar staff asiantaethau. Arwyddion yn unig yw'r enghreifftiau hyn yn gyffredinol, ac nid ydynt wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn ym mhob ardal. At ei gilydd ar draws Cymru gyfan, ymddengys na welwyd fawr ddim newid mesuradwy yn yr asesiad yr adroddwyd yn ei gylch yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, ac mae'n rhy gynnar i deimlo'n ffyddiog bod yr arwyddion mwy cadarnhaol hyn yn awgrymu patrwm cynaliadwy ac eang o ddiwygio strategol.

## 2. Deall effaith ac effeithiolrwydd diogelu

Mae consensws cyffredinol ynghylch yr angen i gytuno ar ddull cyffredin iawn o fesur a chofnodi effaith ac effeithiolrwydd diogelu ar draws Cymru gyfan yn parhau i fod yn elfen allweddol o waith y Bwrdd.

### Cynnydd yn ystod 2024-25

Fel yn ystod 2023-24, mae pob rhanbarth ac asiantaeth ddiogelu wedi neilltuo amser ac ymdrech sylweddol mewn cydweithrediad â'r Bwrdd a'n partneriaid academaidd (Prifysgol Metropolitan Manceinion) i ddatblygu Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaeth Cenedlaethol enghreifftiol.

**Plant:** Cafodd llawer o'r gwaith cefndir angenrheidiol ei gwblhau, yn enwedig yng nghyswllt Plant, yn ystod 2023-24. Er mai ein bwriad oedd lansio a threialu'r fframwaith ar gyfer plant fel "prototeip" o fis Ebrill 2025 ymlaen, a fyddai'n cynnwys cyfres wedi'i diffinio a'i chytuno o fesurau amlasiantaeth "wedi'u cytuno yn genedlaethol", gwelwyd bod y nod hwnnw'n rhy uchelgeisiol.

Er hynny, mae'r gwaith a gyflawnwyd gan ein cydweithwyr ym Mhrifysgol Metropolitan Manceinion wedi hwyluso llawer mwy o gonsenswS ynghylch ystod o fesurau opsiynol y gallai Byrddau eu defnyddio er mwyn dangos tystiolaeth o effaith ac effeithiolrwydd.

**Oedolion:** Rydym hefyd yn cydnabod, er gwaethaf y bwriad a nodwyd gan y Bwrdd, nad oes unrhyw waith tebyg wedi cychwyn eto ers i ni gyhoeddi Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Oedolion ddechrau 2025 (McManus, 2025), a hynny'n bennaf oherwydd capasiti cyfyngedig. Mae'n amlwg bod yna waith i'w wneud i adolygu lefel ac ystod bresennol y data amlasiantaeth sy'n ymwneud ag oedolion ac i adolygu ei ddefnyddioldeb. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â'r bwlch hwn, a bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Gwaith Blynyddol 2026-27 y Bwrdd.

Wrth ystyried y darlun ehangach, mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn nodi (ar dudalennau 8-11) bryderon sylweddol am y gwendidau presennol o safbwynt adrodd ynghylch patrymau a thueddiadau cymharol yn genedlaethol o ran plant; mae pryderon tebyg yn berthnasol i oedolion hefyd.

## 3. Diwylliant o ddysgu ym maes diogelu

Mae hwn yn parhau'n ganolog i arfer gorau yng Nghymru. Mae dysgu'n rhan annatod o broses Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant yng Nghymru (sydd wedi'i hymestyn erbyn hyn ac wedi'i hail-lunio yn rhan o'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl), a dylai'r broses barhau i lywio dysgu cenedlaethol.

### Cynnydd yn ystod 2024-25

**Dadansoddiad Thematig o ran Plant 2023:** Mae'r prif argymhellion a nodwyd gan yr Athro Michelle McManus ac Emma Ball i'w gweld yn adroddiad Prifysgol Metropolitan Manceinion/ y Bwrdd Cenedlaethol, sef "Risg, Ymateb ac Adolygu: Diogelu Amlasiantaeth, Dadansoddiad thematig o adolygiadau ymarfer plant yng Nghymru 2023." Roedd yr argymhellion hynny wedi'u hanelu at weithwyr proffesiynol, asiantaethau, arweinwyr strategol a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau. Roedd yn ofynnol i bob Bwrdd Rhanbarthol ddarparu adroddiad i'r Bwrdd Cenedlaethol, a oedd yn egluro'r ymateb i bob un o 11 o argymhellion yr adroddiad ac a oedd yn egluro cynnydd yng nghyswllt pob argymhelliad.

**Rhanbarthau:** Mae pob rhanbarth wedi dangos tystiolaeth bod gwaith sylweddol yn cael ei gyflawni er mwyn ymateb i rai neu bob un o'r argymhellion. Mae hynny'n adlewyrchu ymrwymiad gwirioneddol gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol ledled Cymru i ddysgu'n weithredol a rhoi newid ar waith er mwyn sicrhau gwelliant amlwg. Mae manylion y cynnydd hwn i'w gweld yn Adroddiadau Blynyddol pob un o'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

**Iechyd:** Cydnabyddir bod rhai o argymhellion yr adroddiad yn gofyn am ymdrech hirdymor barhaus i'w cyflawni. Yn y cyd-destun hwnnw, rydym yn croesawu sefydlu'r Grŵp Cyflawni ar gyfer Cryfhau Diogelu ym maes Iechyd yn GIG Cymru, er mwyn darparu goruchwyliaeth a hybu'r broses o weithredu'r argymhellion â blaenoriaeth a wnaed i Wasanaethau GIG Cymru. Mae pedair ffrwd waith bwrpasol wrthi'n arwain y canlynol ac yn gwneud cynnydd mewn perthynas â nhw:

- Datblygu Datganiad Ansawdd ar gyfer Diogelu
- Sefydlu fframweithiau clir ar gyfer atebolrwydd a sicrwydd
- Sefydlu Fframwaith Dysgu ar gyfer diogelu
- Archwilio cyfleoedd i ddefnyddio systemau tracio digidol i gryfhau diogelu.

Yn ogystal, ddiwedd 2023 cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru ei chanfyddiadau'n dilyn ei harolygiad "Adolygiad Cyflym" o ymarfer cofrestru amddiffyn plant. Roedd dyddiad cyhoeddi canfyddiadau'r Arolygiaeth yn cyd-daro'n fras â dyddiad cyhoeddi ein hadroddiad ni a Phrifysgol Metropolitan Manceinion, sef "Risg, Ymateb ac Adolygu", ac roedd llawer o'r materion a nodwyd yn y naill adroddiad yn cael eu hadleisio yn y llall. Yn yr un modd, y flwyddyn adrodd a oedd ar waith er mwyn i asiantaethau ymateb i argymhellion y ddau adroddiad oedd 2024-25. Unwaith eto, mae canfyddiadau ac argymhellion y ddau adroddiad wedi cael eu derbyn yn dda a'u croesawu gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol.

Rydym yn nodi hefyd bod Fframwaith yr **Adolygiad Diogelu Unedig Sengl** wedi'i lansio ym mis Hydref 2024, ond nad oes gwerthusiad o'i effaith a'i lwyddiant yn ystod y cyfnod hwnnw wedi'i gwblhau eto. Rydym yn croesawu'r hyfforddiant ychwanegol sydd wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno; gwelir ei fod o safon dda a'i fod wedi'i groesawu gan Fyrddau Rhanbarthol ac ymarferwyr ledled Cymru. Rydym hefyd yn croesawu gwaith yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl gyda'n partneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Manceinion, o ran croesawu'r Fframwaith ar gyfer Argymhellion a ddatblygwyd o ganlyniad i adroddiad partneriaeth y Bwrdd Cenedlaethol/Prifysgol Metropolitan Manceinion, sef "Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Cymru" (Mawrth 2025).

**Prinder Adolygwyr ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant/Oedolion:** Fodd bynnag, fel y mae, rydym hefyd wedi cael gwybod am bryder parhaus mewn sawl rhanbarth bod y cyflenwad sgiliau'n parhau i fod dan straen gwirioneddol nad oes pall arno, o ran nifer yr adolygwyr achosion sydd ar gael ac sydd â'r profiad/sgiliau addas. Mae hynny gan gofio'r cylch gwaith ehangach a'r baich ychwanegol sy'n deillio o orfod ysgwyddo cyfrifoldebau newydd sy'n ymwneud â Lladdiadau Domestig, Lladdiadau Iechyd Meddwl a Lladdiadau ag Arf Ymosodol. Er bod nifer fawr o adolygwyr a chadeiryddion wedi cael hyfforddiant erbyn hyn ynghylch proses yr Adolygiad Diogel Unedig Sengl, mae'n aml yn anodd i'r unigolion hynny sicrhau cydbwysedd rhwng swyddi sy'n gofyn llawer ganddynt o ddydd i ddydd a chynnal adolygiadau. Mae eu capasiti'n gyfyngedig. Ymddengys fod yr her hon sy'n bodoli ers amser yn adlewyrchu'r prinder gweithlu sylfaenol ehangach ar draws pob asiantaeth, a grybwyllir uchod ac sy'n parhau i fod yn broblem ar y cyfan. Mae'r sefyllfa yn gofyn am strategaeth hirdymor fwy cydlynol ar gyfer y gweithlu. Hoffai'r Bwrdd Cenedlaethol gyfrannu i unrhyw fenter genedlaethol er mwyn dod o hyd i ffordd o fynd i'r afael â'r rhwystr hollbwysig hwn, ar raddfa sy'n gymesur â'r broblem.

# Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaeth Cenedlaethol: 5 Maes Allweddol ar gyfer Effeithiolrwydd Diogelu

Cafodd y Fframwaith ei lansio yn 2024-25 yn rhan o'r gwaith o ddatblygu dull cydlynol a chyson o gasglu a dadansoddi gwybodaeth am effeithiolrwydd diogelu drwy Gymru gyfan, ac roedd y Bwrdd Cenedlaethol yn falch o weld pob un o'r rhanbarthau yn ymwneud â'r "Fframwaith Pum Maes" hwn yn eu Hadroddiadau Blynyddol ar gyfer 2024-25. Ymddengys fod hynny'n awgrymu bod y meysydd dan sylw'n dod yn rhan annatod o sefydliadau fel fframwaith cenedlaethol cyffredin ar gyfer adrodd ynghylch effeithiolrwydd diogelu, a hynny i raddau helaeth fel yr oedd y Bwrdd wedi argymell i Weinidogion y llynedd.

Caiff y pum Maes eu nodi yma ar ffurf pum Cwestiwn Allweddol. Isod, wedyn, ceir crynodeb o ymateb pob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i bob cwestiwn, fel yr oedd wedi'i nodi yn eu Hadroddiadau Blynyddol perthnasol ar gyfer 2024-25.

**1. Y broses ddiogelu**

- Sut y mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod trefniadau'n effeithiol o safbwynt **adnabod** pryderon am ddiogelu ac o safbwynt **ymateb** iddynt?
- Beth yw **canlyniadau** prosesau ac ymyriadau diogelu rhanbarthol?

**2. Gweithgarwch a data amlasiantaeth**

- Sut y mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod y **protocolau sy'n bodoli eisoes rhwng asiantaethau'n gweithio yn effeithiol**, pan nodir bod unigolion yn wynebu risg o ddioddef niwed?
- Pa **ddata** sy'n cael ei gasglu am hynny, sut y caiff ei rannu a pha dystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod?

**3. Llinynnau thematig**

- Pa **brif ffynonellau thematig niwed**, sy'n gofyn am ymateb diogelu yn lleol, y ceir tystiolaeth ohonynt yn nata'r Bwrdd?
- Pa **gamau** sydd wedi'u nodi er mwyn ymateb i'r dystiolaeth thematig honno?

**4. Adborth defnyddwyr gwasanaeth**

- Beth yw **amcanion** y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol **o safbwynt casglu adborth defnyddwyr gwasanaeth** am weithgarwch diogelu uniongyrchol?
- Beth y mae'r **metrigau** sy'n cofnodi'r adborth hwnnw'n ei ddweud wrth y Bwrdd?
- Sut y mae'r Bwrdd yn bwriadu ymateb i'r dystiolaeth honno a beth yw'r amserlen ar gyfer gwneud hynny?

**5. Gwybodaeth am y gweithlu**

- Beth a wyddys am **broffil** y gweithlu diogelu?
- Sut y mae **trefniadau recriwtio a chadw** yn effeithio ar y broses o gyflawni dyletswyddau diogelu?
- I ba raddau y **caiff hyfforddiant amlasiantaeth** ei ddarparu i'r gweithlu diogelu ac i ba raddau y mae'r gweithlu diogelu yn manteisio arno?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod asiantaethau'n deall anghenion y gweithlu diogelu o ran **llesiant a chymorth** ac yn ymateb iddynt?

# Themâu Cenedlaethol o'r Byrddau Rhanbarthol 2024-25

Hoffai'r Bwrdd Cenedlaethol dynnu sylw at y negeseuon canlynol sy'n deillio o ymatebion rhanbarthol i'r pum Cwestiwn yn 2024-25, sef ail flwyddyn y Fframwaith Pum Maes:

**Negeseuon cyffredinol**

- Cyflwynodd pob Bwrdd Rhanbarthol ymatebion neu wybodaeth a oedd yn ceisio mynd i'r afael â phob cwestiwn. Mae hynny wedi galluogi'r Bwrdd Cenedlaethol i gael ystod eang o wybodaeth gyfoethog ynghylch datblygu a gwella diogelu ac ynghylch yr heriau sy'n gysylltiedig â'i sicrhau a'i gynnal, ar draws Cymru gyfan.

- Roedd yn amlwg bod pob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn gallu dangos cryfderau o ran deall eu heffeithiolrwydd eu hunain mewn rhai meysydd, ond nid ym mhob un.

- Mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi'i galonogi gan ystod o fentrau ar draws mwyafrif y rhanbarthau, y bwriedid iddynt gryfhau gwaith dadansoddi data. Mae'r datblygiadau hyn yn dangos ymrwymiad i ddefnyddio grym data metrigau'n fwy effeithiol, a pharodrwydd cynyddol i gael gafael ar y sgiliau a'r capasiti angenrheidiol i wneud hynny.

- Nid oedd pob Bwrdd yn gallu dangos tystiolaeth o gydbwysedd effeithiol rhwng pwyslais ar gydberthnasau cryf a chadarnhaol â phartneriaid a gwaith cynllunio cydlynol ac effeithiol. Roedd rhai ohonynt yn gryfach yng nghyswllt y naill beth neu'r llall. Os oedd y Byrddau'n dangos tystiolaeth o waith cynllunio strategol cryf, roeddent yn gallu manteisio ar adnoddau ehangach i gryfhau effeithiolrwydd diogelu, fel rheol mewn meysydd megis tai ac ymgysylltu cymunedol.

# Ymatebion i bob un o'r Meysydd yn 2024-25

## Y 5 Cwestiwn Allweddol

Dylid nodi nad oedd yn syndod bod ymatebion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn aml yn perthyn i fwy nag un maes, neu'u bod yn cael eu priodoli i un maes gan un Bwrdd Diogelu Rhanbarthol tra byddai Bwrdd Diogelu Rhanbarthol arall yn priodoli'r un wybodaeth i faes gwahanol efallai.

### 1. Y broses ddiogelu

» Sut y mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod trefniadau'n effeithiol o safbwynt **adnabod** pryderon am ddiogelu ac o safbwynt **ymateb** iddynt?
» Beth yw **canlyniadau** prosesau ac ymyriadau diogelu rhanbarthol?

» Darparodd pob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol dystiolaeth o brosesau a threfniadau cadarn a gweithredol ar gyfer Sicrhau Ansawdd ar lefel y Bwrdd.

» Cyflwynodd rhai Byrddau Diogelu Rhanbarthol dystiolaeth o hunanasesu gan asiantaethau partner, o ran casglu data, ymgysylltu â'r gymuned ac ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant.

» Roedd y rhan fwyaf o'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi cynnwys gwaith a oedd yn cyd-fynd â'r broses o ddatblygu Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol dan arweiniad y Bwrdd Cenedlaethol/Prifysgol Metropolitan Manceinion; hyd yma, er hynny, dim ond yn rhannol y mae'r rhaglen hon wedi bod yn llwyddiannus at ei gilydd.

» Tynnodd un Bwrdd sylw at ymrwymiad cryf i ddangos tystiolaeth o ganlyniadau diogelu a deall yr effaith ar blant a theuluoedd, a chyfeiriodd at dystiolaeth ategol nodedig.

» Roedd Bwrdd arall wedi ystyried ffyrdd o gyflwyno dulliau o ddiogelu a gaiff eu harwain gan ddinasyddion, a oedd yn cynnwys sicrhau cynrychiolaeth o blith dinasyddion yn y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a chynyddu ymwybyddiaeth o sut y gall dinasyddion roi adborth am arferion diogelu.

» Roedd sawl ymateb yn cyfeirio at bryderon bod y trefniadau ar gyfer "sicrwydd", sy'n ymwneud â phrosesau diogelu, yn orddibynnol ar drefniadau a gwybodaeth Awdurdodau Lleol, a'u bod felly yn brin o wybodaeth ar sail amlasiantaeth.

» Mewn rhai Byrddau, mae defnyddio Cofrestr Risg strategol ar lefel y Bwrdd, sy'n agored i unrhyw asiantaethau partner, yn ei gwneud yn bosibl uwchgyfeirio, adolygu a lliniaru unrhyw rwystrau sy'n atal partneriaid amlasiantaeth rhag ymateb yn effeithiol i bryderon am ddiogelu.

- Cyfeiriodd pob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol at rôl hollbwysig is-grwpiau Byrddau Diogelu Rhanbarthol, sy'n aml yn effeithiol iawn, yng nghyswllt y maes hwn.
- Roedd un Bwrdd wedi sefydlu rhaglen flynyddol o gael asiantaethau penodol i gyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd yn eu tro.
- Adroddodd sawl Bwrdd ynghylch cynnydd da wrth fabwysiadu polisi a gweithdrefnau'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.
- Cyfeiriodd sawl Bwrdd at y bwlch parhaus o ran cael systemau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth.
- Dim ond un o'r chwe Bwrdd oedd yn gallu dangos tystiolaeth o "ganlyniadau" amlwg, er bod pob un o'r Byrddau wedi darparu enghreifftiau ardderchog o waith y bwriedid iddo wella canlyniadau i unigolion. Cafodd gwaith arloesol ei nodi mewn nifer o ardaloedd. Roedd yn cynnwys Traciwr Diogelu Amlasiantaeth yng Ngorllewin Morgannwg. Diben y platfform digidol hwnnw yw hwyluso rhannu gwybodaeth yn ddiogel rhwng asiantaethau diogelu, sy'n galluogi pob un ohonynt i adnabod unigolion y gallai fod angen cymorth neu wasanaethau arnynt, lleihau'r risg y gallai unigolion lithro drwy rwyd y system iechyd a gofal cymdeithasol, a sicrhau bod gan ymarferwyr y wybodaeth gyswllt gywir pan fo'i hangen arnynt. Nid yw'r Traciwr yn ysgogi nac yn creu atgyfeiriadau. Yn hytrach, mae'n darparu darlun mewn amser real o weithgarwch ac ymyriadau diogelu. Mae gwerthusiad yn dilyn cyfnod o brofi byw wedi argymell y dylai'r cynnyrch hwn gael ei roi ar waith ar raddfa ehangach drwy gael asiantaethau partner eraill i ymuno ag ef. Llwyddodd gweminar yn ymwneud â'r Traciwr, a gyflwynwyd i gydweithwyr ledled Cymru, i ddenu llawer o sylw. Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg wedi'i gydnabod am waith amlasiantaeth effeithiol, wedi iddo ennill dwy o wobrau Cymunedau Mwy Diogel Cymru.

**2. Gweithgarwch a data amlasiantaeth**

- Sut y mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod y **protocolau sy'n bodoli eisoes rhwng asiantaethau'n gweithio yn effeithiol**, pan nodir bod unigolion yn wynebu risg o ddioddef niwed?
- Pa **ddata** sy'n cael ei gasglu am hynny, sut y caiff ei rannu a pha dystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod?

## Adrodd ynghylch data yn genedlaethol: Plant – Ysgrifennwyd gan yr Athro McManus

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn deall bod ymarfer diogelu o safon yn dibynnu ar gael data cywir ac amserol y mae gwaith dadansoddi ystyrlon yn cyd-fynd ag ef. Mae gwybodaeth gadarn yn hanfodol nid yn unig er mwyn deall lefelau angen a phatrymau niwed ond hefyd er mwyn hybu gweithgarwch gwella a galluogi arweinwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am y ffordd orau o amddiffyn plant ledled Cymru.

Yn hanesyddol, câi data diogelu ar gyfer plant ei gyhoeddi yn y *Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol* blaenorol ar hen blatfform StatsCymru. Roedd y setiau data hynny ar gael hyd at 2023–24 ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth helaeth am gofrestriadau, categorïau camdriniaeth, patrymau cysylltiedig ag oedran, ymweliadau, grwpiau craidd a gweithgarwch adran 47 Deddf Plant 1989. Dan wefan newydd StatsCymru, fodd bynnag, ymddengys ar hyn o bryd nad yw'r setiau data ynghylch diogelu yn hygyrch, er gwaetha'r disgwyl bod data 2024–25 yn bodoli erbyn hyn. At hynny, nid oes unrhyw ddadansoddiad ysgrifenedig ar gael yn gyhoeddus o dueddiadau diogelu ar gyfer plant ledled Cymru. Yr unig gyhoeddiad yw nodyn ystadegol cryno iawn gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025, sy'n darparu dehongliad byr iawn o'r data.

Mae'r diffyg dadansoddi hwn yn peri pryder arbennig o ystyried bod ein hadolygiad o'r data sydd ar gael yn dangos tueddiadau newydd pwysig nad ydynt ar hyn o bryd yn destun unrhyw waith craffu cenedlaethol:

- **Llawer o amrywio rhwng awdurdodau lleol**

  Mae yna wahaniaethau trawiadol yng nghyfraddau'r plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant. Yn 2023–24, cofnododd Merthyr Tudful fod 146 plentyn ym mhob 10,000 ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn, o gymharu â chyfartaledd o 113 ym mhob 10,000 ar gyfer Cymru. Cofnododd Pen-y-bont ar Ogwr gyfradd uwch fyth, sef 205 ym mhob 10,000, tra oedd y cyfraddau ar gyfer rhai ardaloedd megis Castell-nedd Port Talbot (57 ym mhob 10,000) a Chasnewydd (61 ym mhob 10,000) yn is o lawer. Gwelir amrywio tebyg ar draws y prif gategorïau camdriniaeth. Heb waith dadansoddi cenedlaethol, nid yw'n glir a yw'r gwahaniaethau hyn yn adlewyrchu lefelau angen sylfaenol, gwahaniaethau rhwng trothwyau, ymarfer lleol, neu ansawdd data.

- **Camdriniaeth gorfforol yn cynyddu ar draws sawl grŵp oedran**

  Mae cofrestriadau'n ymwneud â chamdriniaeth gorfforol wedi cynyddu'n sylweddol ledled Cymru, ac wedi codi o 489 o blant yn 2020–21 i 745 yn 2023–24.

Mae'r cynnydd hwn yn arbennig o amlwg ymhlith plant 10–15 oed, lle cynyddodd nifer y cofrestriadau o 102 i 223 yn ystod yr un cyfnod. Byddai newidiadau o'r fath fel rheol yn ysgogi trafodaeth neu ymchwiliad cenedlaethol, ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddadansoddiad a gyhoeddwyd yn amlygu nac yn esbonio'r tueddiadau hyn.

» **Lefelau uchel o gamdriniaeth emosiynol ac esgeulustod**

Camdriniaeth emosiynol yw'r categori niwed a gofnodir amlaf o hyd, a chafodd 1,386 o blant eu gosod ar y gofrestr amddiffyn plant dan y categori hwn yn 2023–24 (sef cyfradd o oddeutu 22 ym mhob 10,000). Mae esgeulustod yn parhau'n gyson uchel hefyd. Mae rhai grwpiau oedran (er enghraifft plant 1–4 oed) yn dangos gostyngiadau gydag amser, ond mae grwpiau eraill yn dangos cynnydd neu batrymau sy'n amrywio. Heb drefniadau adrodd systematig, nid yw'r gwahaniaethau ystyrlon hyn yn weladwy ar hyn o bryd.

» **Mae plant hŷn heb gynrychiolaeth ddigonol yn gyson**

Plant 16–18 oed sydd â'r nifer leiaf o gofrestriadau ar draws bron bob categori camdriniaeth, ac mae'r niferoedd wedi parhau'n gymharol sefydlog ar draws y cyfnod o bedair blynedd. Er y gallai'r niferoedd isel fod yn ymwneud â sut y mae'r data yn categoreiddio pobl ifanc yn eu harddegau hŷn neu sut y caiff prosesau amddiffyn plant eu defnyddio ar gyfer y grŵp oedran hwn, mae diffyg sylwebaeth genedlaethol yn golygu nad oes unrhyw archwiliad i ddangos a yw hynny'n adlewyrchu angen nas diwellir, llwybrau risg gwahanol, neu rwystrau systemig sydd ar waith.

» **Bylchau ac anghysondebau yn y setiau data sydd ar gael**

Mae dangosyddion pwysig, gan gynnwys rhai mesurau'n ymwneud â grwpiau craidd, ymweliadau a chamfanteisio ar blant, ar goll ar gyfer blynyddoedd penodol. Mae'r bylchau hynny'n cyfyngu yn sylweddol ar y gallu i ddadansoddi tueddiadau, asesu perfformiad neu ddeall newidiadau yn y galw am ddiogelu. Nid yw'r anghysondebau hynny'n cael eu cydnabod na'u hesbonio mewn unrhyw wybodaeth gyhoeddus.

**Pam y mae hynny'n bwysig**

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod gan Gymru lawer o ddata ynghylch diogelu ond bod y diffyg adrodd dadansoddol cenedlaethol yn golygu nad oes neb ar hyn o bryd yn sylwi ar dueddiadau pwysig, risgiau, a'r modd y mae ymarfer yn amrywio. Mae'r diffyg dehongli naratif yn ei gwneud yn anodd i arweinwyr diogelu a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau strategol, corfforaethol neu wleidyddol ddeall beth sy'n sbarduno galw, ble y mae pwysau'n dod i'r amlwg, neu a yw plant yn cael eu hamddiffyn yn gyson ar draws awdurdodau lleol.

» Gan gydnabod y bwlch hwn, mae'r Bwrdd wedi comisiynu adolygiad dadansoddol er mwyn sefydlu set ddata gydlynol a dibynadwy yr adroddir yn ei chylch yn rheolaidd, a fydd yn cryfhau goruchwyliaeth genedlaethol, yn hybu dysgu lleol ac yn gwella tryloywder ar draws y system ddiogelu.

## Data Byrddau Diogelu Rhanbarthol

Mae pob un o’r Byrddau Diogelu Rhanbarthol a’u hasiantaethau partner wedi cyrraedd cam datblygu gwahanol yn eu defnydd o ddata. Mewn rhai achosion, ceir cyfeiriadau prin at ddata fel ffynhonnell allweddol o dystiolaeth, ond hyd yn oed yn yr achosion hynny cyfeirir at ddata’n aml yng nghyswllt problem benodol iawn sy’n dod i’r amlwg, sy’n ysgogi ymchwiliad pellach. Yn yr enghreifftiau gorau, caiff data ei ddefnyddio nid yn unig i fonitro perfformiad ond hefyd i lunio strategaeth, dyrannu adnoddau a rhagweld galw yn y dyfodol. Bydd datblygu’r Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaeth Cenedlaethol yn cryfhau ymhellach drefniadau ar gyfer goruchwylio ymarfer diogelu ar draws gofal cymdeithasol i blant ac oedolion. Fodd bynnag, fel y soniodd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg yn ei adroddiad blynyddol, *“yn yr amgylchedd heddiw lle mae llawer yn y fantol, lle creffir yn gyson ar ymddiriedaeth gyhoeddus, cyfrifoldeb cyllidol a’r canlyniadau i ddinasyddion, rhaid i arweinwyr strategol ar draws tirwedd y bartneriaeth groesawu data fel ased craidd. Nid oes a wnelo â thechnoleg er ei mwyn ei hun; mae a wnelo â defnyddio data i arwain yn fwy clyfar, gweithredu’n gynt a chyflawni’n well.”*

Yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-24, gwnaethom sôn bod ymatebion rhanbarthol i’r maes hwn yn amrywio’n fawr, eu bod heb eu datblygu’n ddigonol a’u bod yn gymharol wan yn gyffredinol, a bod cyfleoedd yn cael eu colli’n aml i fanteisio ar botensial y metrigau presennol i ”adrodd y stori” ynghylch nifer yr achosion ac adnabod patrymau galw neu bethau tebyg ar draws y rhanbarth. Ar y llaw arall, mae Adroddiadau Blynyddol 2024-25 y Byrddau yn darparu mwy o dystiolaeth eu bod yn gweithio’n galed i fynd y tu hwnt i ymatebion tameidiog neu ddisgrifiadol ac i fynd i gyfeiriad defnydd mwy cydlynol a dadansoddol o ddata lleol.

Yn gyffredinol, mae dealltwriaeth y Byrddau o ymarfer diogelu proffesiynol mewn cyd-destun amlasiantaeth ar draws y rhanbarth yn defnyddio data awdurdodau lleol sy’n cyd-fynd â dangosyddion perfformiad Llywodraeth Cymru, a gofnodwyd ac a ystyriwyd ar lefel y Bwrdd neu mewn grŵp ansawdd a sicrwydd sy’n perthyn i’r Bwrdd. Mewn rhai Byrddau, mae’r heddluoedd a’r byrddau iechyd hefyd yn darparu data am fesurau allweddol sy’n ymwneud â’u gweithgarwch a’u hymarfer diogelu nhw. Mae enghreifftiau o ddata Byrddau a gyflwynir ar draws asiantaethau’n aml yn cynnwys gwybodaeth am blant sy’n wynebu risg, ymchwiliadau adran 47 Deddf Plant 1989, plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant, plant sy’n derbyn gofal, achosion o gamfanteisio a chaethwasiaeth fodern, ac achosion o dderbyn cleifion i’r ysbyty oherwydd hunan-niweidio. O ran oedolion sy’n wynebu risg, caiff gwybodaeth ei darparu fel arfer yng nghyswllt, er enghraifft, ymholiadau adran 126 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a’r ymholiad saith diwrnod, camdriniaeth ddomestig, a pherfformiad darparwyr. Yn gyffredinol, roedd Byrddau yn cynnig esboniadau ynghylch achos tebygol cynnydd neu ostyngiad, os nodwyd newid ystadegol, ac roedd yr esboniadau hynny’n amrywio o newid strwythur gwasanaethau i ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth gyhoeddus, ond nid oedd y rheini ar gael bob amser neu nid oedd modd dangos tystiolaeth ohonynt.

Er nad oedd y Byrddau'n cyfeirio'n uniongyrchol at ddata ynghylch tueddiadau, roedd yna dystiolaeth gref o waith dadansoddi wedi'i sbarduno gan ddata ynghylch cam-drin plant yn rhywiol, digartrefedd, a phatrymau Dyletswydd i Adrodd mewn lleoliadau iechyd a gofal.

Dangosodd sawl Bwrdd dystiolaeth o ddadansoddi data gan ddefnyddio Power BI, yn enwedig wrth ddatblygu atebion arloesol i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Cyfeirir at y rhan fwyaf ohonynt ym Maes Tri – "Llinynnau Thematig" – a bu un Bwrdd yn gweithio gyda'r partneriaethau rhanbarthol ehangach i gofnodi gwybodaeth am Risg y Tu Allan i'r Cartref.

Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn dangos ymrwymiad y Byrddau Diogelu Rhanbarthol i ddefnyddio grym data metrigau'n fwy effeithiol, a pharodrwydd cynyddol i gael gafael ar y sgiliau a'r capasiti angenrheidiol i wneud hynny. Yn ei Adroddiad Blynyddol, mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg yn rhoi neges allweddol glir a grymus: *"..nid swyddogaeth swyddfa gefn yw data – mae'n un o hanfodion arweinyddiaeth ac mae angen cyllid i greu cyfleoedd i'r sawl a all agor y drws i'r maes hwn ar gyfer y Byrddau Diogelu (Gwyddonwyr Data, Peirianwyr Data, Dadansoddwyr Data).*

*Mae dyfodol diogelu, er mwyn atal ac amddiffyn, yn dibynnu ar ein gallu ar y cyd i:*

*1. Hyrwyddo diwylliant 'data yn gyntaf'.*

*2. Buddsoddi mewn seilwaith, talent ac offer.*

*3. Ymgorffori data wrth gynllunio'n strategol ac mewn llywodraethiant.*

*4. Arwain gyda thryloywder, atebolrwydd a gweledigaeth."*

## 3. Llinynnau thematig

- Pa **brif ffynonellau thematig niwed**, sy'n gofyn am ymateb diogelu yn lleol, y ceir tystiolaeth ohonynt yn nata'r Bwrdd?
- Pa **gamau** sydd wedi'u nodi er mwyn ymateb i'r dystiolaeth thematig honno?

Gwyddys bod pob Bwrdd yn weithgar iawn o ran adnabod llinynnau thematig yn eu rhanbarth, er nad yw'r ffordd y cyflawnir hynny bob amser yn glir ac nad yw efallai ond yn adlewyrchu ymateb priodol i bwysau sy'n dod i'r amlwg yn ystod cyfnod penodol. Rhaid gofyn o hyd a oes mwy o gyfle i'r gwaith ardderchog sy'n cael ei gefnogi yn y maes hwn fod yn fwy gweledol ar draws Cymru gyfan a chael ei rannu'n effeithiol, er mwyn hybu gwaith dysgu. Mae hynny'n awgrymu cyfle posibl i ddatblygu rhyw fath o 'borth dysgu' mwy cyffredinol ar gyfer diogelu, sy'n rhyngweithio â'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol. O blith y llinynnau thematig a nodwyd gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, mae'r canlynol yn haeddu sylw:

- **Atgyfeiriadau teuluol mynych** – mae gwaith yn cael ei gyflawni i ddeall y patrymau sy'n gysylltiedig â'r ffenomenon cyfarwydd hwn a phryderon nad ydynt yn cyrraedd trothwyau.
- Yr angen am fesurau i helpu i lunio a **gwella ymarfer ym maes diogelu oedolion** yng nghyswllt **galluedd meddyliol, cydsyniad**, a dewisiadau annoeth.
- **Chwalu mythau o ran rhannu gwybodaeth** – drwy ddefnyddio adnodd hyfforddiant sy'n ceisio **hybu hyder ymarferwyr** i rannu gwybodaeth yn fwy parod, yn fwy rhagweithiol ac yn fwy cymesur o fewn terfynau'r gyfraith.
- Mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi mabwysiadu dull arloesol o weithredu er mwyn ymateb i **drais mewn ysgolion.** Mae *Adolescence* yn adrodd stori ynghylch sut y mae byd teulu'n cael ei droi ben i waered pan gaiff Jamie Miller sy'n 13 oed ei arestio am lofruddio merch yn ei harddegau sy'n mynd i'w ysgol. Mae'r gyfres Netflix sydd mewn pedair rhan yn cynnwys themâu megis y diwylliant 'incel', misogynedd, a'r modd y caiff menywod eu trin. Mewn ymateb i effaith y gyfres deledu hon, mae'r Bwrdd wedi **datblygu sesiwn friffio 7 munud er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r pryderon am dwf y diwylliant 'incel'**.
- Mae **Risg y Tu Allan i'r Cartref** a chamdriniaeth a gyflawnir gan bobl mewn **swyddi cyfrifol** wedi ymddangos mewn ardaloedd Byrddau eraill.

## 4. Adborth defnyddwyr gwasanaeth

- Beth yw **amcanion** y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol **o safbwynt casglu adborth defnyddwyr gwasanaeth** am weithgarwch diogelu uniongyrchol?
- Beth y mae'r **metrigau** sy'n cofnodi'r adborth hwnnw'n ei ddweud wrth y Bwrdd?
- Sut y mae'r Bwrdd yn bwriadu ymateb i'r dystiolaeth honno a beth yw'r amserlen ar gyfer gwneud hynny?

Drwy ddiffiniad, mae diogelu'n ymwneud yn bennaf â phobl, boed mewn teuluoedd neu fel arall, ac yn ymwneud â chydberthnasau sy'n bersonol dros ben, yn gyfrinachol ac yn aml yn agos iawn. Mae cael mynediad i brofiadau pobl o ran hynny, er mwyn gwella ymarfer, yn esgor ar nifer fawr o heriau amlwg. Serch hynny, mae pob Bwrdd yn dangos tystiolaeth o ymrwymiad cryf i fanteisio'n llawnach ar "brofiadau go iawn" fel ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth. Dyma rai enghreifftiau diddorol yn Adroddiadau Blynyddol y Byrddau Diogelu Rhanbarthol:

- Adborth ynghylch profiadau defnyddwyr o Gynadleddau Amddiffyn Plant wedi arwain at welliannau mewn ymarfer. (Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gwent)
- Nifer o ddatblygiadau Grymuso Ieuenctid a oedd yn deillio o adborth ar y gweill (Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg), er enghraifft Gwybod eich Hawliau; Sesiynau tad a mab; Cadw'n ddiogel mewn chwaraeon; a systemau adborth digidol, ymhlith eraill.
- Mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg a Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cymryd camau breision i ddatblygu ymarfer sydd wedi'i seilio yn bennaf ar lais dinasyddion. Er enghraifft, mae'r ddau Fwrdd wedi defnyddio'r dull Newid Mwyaf Arwyddocaol o gofnodi straeon unigolion mewn Gwasanaethau Plant neu Wasanaethau Oedolion neu yn y ddau faes, ac mae hynny wedi rhoi rhai safbwyntiau unigryw a gwahanol hyd yn hyn ar eu hymateb i angen a risg.
- Mae gwaith y Panel Goroeswyr yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar ffrydiau gwaith sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn, ac eleni canolbwyntiwyd ar effaith camdriniaeth ar ôl gwahanu ac ar wrth-honiadau a wneir gan y sawl sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig.
- Yn ystod yr Wythnos Diogelu, bu Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg yn ymgysylltu â'i gymunedau lleol er mwyn deall beth yr oedd diogelu'n ei olygu iddyn nhw.
- Wrth gefnogi'r gwaith o gofnodi profiadau go iawn defnyddwyr gwasanaeth, mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi datblygu'r ddogfen ganllaw sy'n dwyn y teitl "Profiad Bywyd yr Oedolyn". Mae'r ddogfen wedi'i datblygu er mwyn galluogi ymarferwyr i ystyried profiad yr oedolyn a sicrhau bod profiadau go iawn yn parhau'n ganolog i unrhyw gamau gweithredu a gymerir i ddiogelu'r oedolyn sy'n wynebu risg.

## 5. Gwybodaeth am y gweithlu

- Beth a wyddys am **broffil** y gweithlu diogelu?
- Sut y mae **trefniadau recriwtio a chadw** yn effeithio ar y broses o gyflawni dyletswyddau diogelu?
- I ba raddau y **caiff hyfforddiant amlasiantaeth** ei ddarparu i'r gweithlu diogelu ac i ba raddau y mae'r gweithlu diogelu yn manteisio arno?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod asiantaethau'n deall anghenion y gweithlu diogelu o ran **llesiant a chymorth** ac yn ymateb iddynt?

- Er bod pob rhanbarth yn cyfeirio at heriau sylweddol a pharhaus o ran y gweithlu, mae hwn yn faes sy'n esgor ar her o ran gallu cofnodi patrymau'r gweithlu, eu dadansoddi ac adrodd yn eu cylch, yn enwedig ar sail amlddisgyblaethol.
- Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o fyrddau wedi ymrwymo i ddod o hyd i ffordd o fynd i'r afael â'r ffactor llwyddiant hollbwysig hwn o ran diogelu, ac mae rhai rhanbarthau wedi cyfeirio at ddulliau creadigol ac effeithiol o fynd i'r afael â'r her, fel y nodir yn yr enghreifftiau isod. Mae'r rhain yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r Bwrdd Cenedlaethol. Wedi dweud hynny, roedd enghreifftiau o ddiffyg gweithredu yn Adroddiadau Blynyddol rhai Byrddau Diogelu Rhanbarthol.
- Yn y cyfamser, roedd Adroddiadau Blynyddol yr holl Fyrddau Diogelu Rhanbarthol yn dangos tystiolaeth o raglenni hyfforddiant eang sydd wedi'u datblygu'n dda ac sy'n ymddangos yn "gyfredol", yn berthnasol, yn hygyrch ac wedi'u hanelu at ymarferwyr a rheolwyr gweithredol.

Mae uchafbwyntiau o'r adran hon yn cynnwys y canlynol: -

- Dull arbennig o gynhwysfawr o ymdrin â'r gweithlu yn rhanbarth un Bwrdd, a oedd yn darparu tystiolaeth o ddadansoddi cadarn; gyda'r gallu i nodi mwy o sefydlogrwydd ymysg gweithwyr proffesiynol ym maes diogelu o ran y niferoedd sy'n gadael ac yn dechrau, ac i ddeall statws ac effaith bresennol demograffeg a chynaliadwyedd y gweithlu ymwelwyr iechyd. Disgrifiwyd ymwybyddiaeth gref o fanteision cymorth proffesiynol a lles yn yr enghraifft hon hefyd.
- Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, nodir bod datblygu staff a chyfleoedd o ran gyrfa yn allweddol, ac mae llwybr wedi'i sefydlu ar gyfer datblygu ein gweithlu ein hunain ym maes gofal cymdeithasol. Mae hynny wedi parhau i fod yn llwyddiant, ac yn 2024 esgorodd ar saith o weithwyr cymdeithasol pellach a oedd newydd gymhwyso ar gyfer Gwasanaethau Plant. Mae'r rhaglen yn amcangyfrif y bydd ganddi bump o fyfyrwyr eraill a fydd yn cymhwyso ar gyfer swyddi ym maes Gwasanaethau Plant yn ystod 2025.
- Mae strategaethau recriwtio hirdymor yn Sir Benfro yn cynnwys y "Tâl Croeso", pecynnau adleoli ac ymgyrchoedd ar gyfryngau cymdeithasol. I sicrhau nad yw tâl yn rhwystr i weithwyr newydd, mae tâl a chyflogau wedi'u meincnodi â'r rheini sy'n berthnasol i awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth.
- Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, mae'r Bwrdd yn cadw golwg ar dueddiadau yn y sector gofal, cartrefi nyrsio a gofal cartref. Rhoddir sicrwydd drwy systemau rhanbarthol cadarn ar gyfer adrodd i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Mae adroddiadau eleni wedi dangos bod rhestrau aros ar gyfer gofal cartref wedi lleihau yn ystod 2024/25, ond mae gofyn i ddarparwyr fod yn greadigol i sicrhau eu bod yn recriwtio'n weithredol a'u bod yn cadw staff. Mae'r ddibyniaeth ar weithwyr tramor yn helaeth ar draws pob sector.

# Partneriaeth Strategol 3 blynedd ar gyfer Datblygu Diogelu – 2024-2027

Mae'r Bartneriaeth Datblygu Diogelu a sefydlwyd gan y Bwrdd Cenedlaethol wedi cyrraedd hanner ffordd i bob pwrpas – mae 18 mis wedi pasio (adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn) – a bydd yn cyrraedd ei charreg filltir 2 flynedd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol (2025-26).

Mae'r Bwrdd o'r farn unfrydol bod y "model partneriaeth ddatblygu" hwn, sy'n manteisio ar adnodd sefydliadol academaidd medrus dros ben, wedi gwneud y cyfraniad unigol mwyaf sylweddol i effaith y Bwrdd Cenedlaethol ers sefydlu'r berthynas â'r Athro McManus yn 2020-21, a'i fod wedi llenwi bwlch mawr mewn capasiti i ddatblygu ar y cyd ledled Cymru a'i rhanbarthau. Mae'r corff sylweddol o "allbynnau" sy'n seiliedig ar dystiolaeth (pum adroddiad cenedlaethol yn ystod 2021-25 a oedd yn ymdrin â heriau strategol allweddol ledled Cymru) ac sy'n llifo o'r berthynas hon yn siarad drostynt eu hunain. Mae adroddiadau ymchwil manwl, canfyddiadau ac argymhellion i'w gweld yma.

Bydd gwaith y bartneriaeth yn parhau tan fis Ebrill 2027 a bydd yn cynnwys y rhaglenni gwaith allweddol a eglurir isod, ond rydym wedi ein hargyhoeddi o hyd bod angen i'r model partneriaeth hwn barhau ymhell y tu hwnt i 2027. Mae'n amserol yn awr i'r Bwrdd Cenedlaethol fyfyrio ynghylch ystod ac effaith y gwaith a gyflawnir mewn partneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Manceinion, ac ystyried trefniadau posibl ar gyfer olyniaeth er mwyn cynnal a chryfhau rhaglen gydweithredol o waith datblygu'n seiliedig ar dystiolaeth, sydd wedi bwrw gwreiddiau.

Bydd y Bwrdd Cenedlaethol/Prifysgol Metropolitan Manceinion yn cynnal eu cynhadledd flynyddol ym mis Tachwedd 2025. Dysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant fydd y thema, sy'n cael sylw bob dwy flynedd.

# Ymrwymiadau'r Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer 2024-2027
## Cydbwysedd rhwng parhad a datblygiad

### Yn ystod y tymor o dair blynedd, ac o fis Gorffennaf 2025 ymlaen, bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn:

- **Sicrhau parhad yng ngwaith y bwrdd** o ran hyrwyddo diwylliant o gydweithio a gweithgarwch cyffredin gyda Byrddau Diogelu Rhanbarthol.
- **Sicrhau parhad o ran meithrin ac ymestyn y sgwrs** â phartneriaid allweddol cenedlaethol a phartneriaid allweddol ledled y DU ym maes diogelu.
- **Gwella'r ffocws ar Ddiogelu Oedolion fel blaenoriaeth**, gyda'r bwriad o ailgydbwyso'r gweithgarwch datblygu yn unol â hynny, gan gymryd arweiniad o ganfyddiadau Adroddiad Thematig Oedolion Partneriaeth y Bwrdd Cenedlaethol/Prifysgol Metropolitan Manceinion 2024 ac o dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, sydd ar gael drwy Storfa'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.
- **Sicrhau parhad yn rôl y Bwrdd Cenedlaethol o ran "dysgu cenedlaethol"** – drwy gefnogi dysgu o broses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl newydd a pharhau i sicrhau bod **adroddiad thematig cenedlaethol annibynnol** yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol yn seiliedig ar yr Adolygiadau Ymarfer Oedolion a'r Adolygiadau Ymarfer Plant (am yn ail bob blwyddyn) a gyhoeddir gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol yn ystod y ddwy flynedd flaenorol; cynnal seminar/cynhadledd ddiogelu flynyddol i rannu gwaith dysgu cenedlaethol o Adolygiadau Ymarfer Oedolion /Adolygiadau Ymarfer Plant ac adolygiadau annibynnol eraill.
- **Cyhoeddi Adroddiad Thematig Cenedlaethol Annibynnol – Adolygiadau Ymarfer Plant 2025** (Bydd hyn ym mis Tachwedd 2025).
- **Parhau â rhaglen waith "Llywio'r Dyfodol"** a gyflawnir gan Bartneriaeth Datblygu Diogelu'r Bwrdd Cenedlaethol/Prifysgol Metropolitan Manceinion, gan gynnwys rhaglenni gwaith dilynol sy'n deillio o adroddiadau Prifysgol Metropolitan Manceinion/Y Bwrdd Cenedlaethol sy'n seiliedig ar ymchwil ac sydd wedi'u cyhoeddi hyd yma; adolygu a datblygu metrigau perfformiad diogelu oedolion; a chyfrannu i waith datblygu er mwyn cryfhau trothwyau cyffredin ar gyfer gwneud penderfyniadau ym maes diogelu oedolion.
- **Goruchwylio camau gweithredu Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.**
- **Ystyried canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o Adroddiadau Cenedlaethol sy'n ymwneud â rheoli Honiadau Proffesiynol** gyda'r bwriad o nodi meysydd posibl i'w datblygu a chyfrannu i feysydd ar gyfer datblygu, sy'n codi yn sgil yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru, "Cyfiawnder trwy ein Dewrder" (Medi 2025), sef yr Adolygiad Ymarfer Plant a gynhaliwyd ar ôl dyfarnu'r cyn-bennaeth Neil Foden yn euog o gam-drin plant yn rhywiol.

- **Cyfrannu i Adolygiad Cenedlaethol Llywodraeth Cymru o Lywodraethiant**, gan adeiladu ar y papur trafod ynghylch llywodraethiant a argymhellwyd i Weinidogion gan y Bwrdd Cenedlaethol ddechrau 2025.

- **Cryfhau cydberthnasau â rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol:** Mae'r bwrdd presennol (2023-2026) yn parhau i fuddsoddi amser ac ymdrech sylweddol mewn meithrin cydberthnasau 'sefydlog' ag Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi, Arolygiaeth Prawf a Charchardai Ei Fawrhydi, Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd Plant Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Estyn, yr Uned Atal Trais, Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru, Rhwydwaith Diogelu'r Pum Gwlad a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ymhlith eraill.

# Gwaith y Bwrdd Cenedlaethol yn ystod 2024-25 mewn perthynas â'i ddyletswyddau statudol presennol

## **Dyletswydd Strategol 1 y Bwrdd Cenedlaethol: Darparu cymorth a chyngor** i Fyrddau Diogelu, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn effeithiol.

Mae pob un o aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn gysylltiedig â Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, a mynychodd pob aelod gyfarfodydd a digwyddiadau datblygu eu Bwrdd Diogelu Rhanbarthol perthnasol yn ystod y flwyddyn, ac eithrio Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg ac yn fwy diweddar Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru. Yn anffodus, y rheswm am hynny yw'r ffaith bod y Bwrdd wedi bod heb aelodaeth lawn ers dros 12 mis. Mae unrhyw leihad yn ein haelodaeth yn cael effaith anghymesur, ac i bob pwrpas yn lleihau ei gapasiti sydd eisoes yn gyfyngedig.

Er hynny, pan fyddwn yn gweithredu â chapasiti llawn, mae ein perthynas agos â Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth am themâu sy'n dod i'r amlwg ac am effeithiolrwydd cyffredinol. Yn ogystal â mynychu cyfarfodydd eu Bwrdd Diogelu Rhanbarthol perthnasol yn rheolaidd, mae pob aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol yn cynnal adolygiad o'r Bwrdd a ddyrannwyd iddo/iddi, gan ddefnyddio Adroddiad Blynyddol y Bwrdd hwnnw, ac mae hynny yn ei dro'n dod yn rhan o Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol.

# **Dyletswydd Strategol 2 y Bwrdd Cenedlaethol: Adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau** i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru.

Mae "Rhaglen Llywio'r Dyfodol" y Bwrdd Cenedlaethol wedi parhau i ddarparu'r llwyfan cyffredinol ar gyfer y gwaith a wneir gan Brifysgol Metropolitan Manceinion fel partner strategol y Bwrdd. Mae'r rhaglen hon yn parhau i adeiladu ar y gyfres o adroddiadau sy'n adlewyrchu archwiliad 'system gyfan' dwys a threiddgar o ddiogelu ar draws Cymru. Mae'r cydweithio parhaus â Byrddau Diogelu Rhanbarthol wrth ddatblygu fframwaith perfformiad i hybu cofnodi gwybodaeth am systemau diogelu a chynnydd ymarfer ar sail pum maes diogelu allweddol yn elfen bwysig o ddeall effeithiolrwydd ar draws Cymru gyfan.

## Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant Hydref 2023: Gweithredu'r Argymhellion

O ystyried bod yr adroddiad wedi'i gyhoeddi yn ddiweddarach yn ystod y cylch cynllunio blynyddol (ym mis Tachwedd 2023), y flwyddyn weithredu mewn gwirionedd oedd 2024-25. Ar sail adroddiadau a gyflwynwyd ynghylch cynnydd ac ar sail ymweliadau â phob Bwrdd Rhanbarthol gan y tîm ymchwil ac aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn, mae'r tîm wedi cofnodi'r darlun cyffredinol ledled Cymru. Rhoddodd pob Bwrdd ymateb cynhwysfawr i'r argymhellion gan nodi sut yr oedd gwaith dysgu'n cael ei ddefnyddio i lywio ymarfer cyfredol ac i lywio cynlluniau datblygu sy'n parhau neu gynlluniau datblygu newydd.

Mae ystyfnigrwydd hen rwystrau i rannu gwybodaeth yn effeithiol yn fethiant systemig y sonnir amdano'n aml. Yn y cyfamser, mae gallu Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac asiantaethau i'w datrys neu i ymdrin â nhw i'r graddau y byddent efallai'n dymuno neu i'r graddau sy'n bosibl iddynt yn realistig heb ymyrraeth ar lefel genedlaethol yn atal atebion cenedlaethol effeithiol. Ar nodyn mwy calonogol, ceir tystiolaeth dda bod partneriaid yn mynd i'r afael â'r sefyllfa eu hunain, er enghraifft wrth dreialu system Atgyfeirio Integredig Cymru Gyfan ar hyn o bryd.

## Model ar gyfer Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Parhaodd aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol i gyfrannu'n weithredol yn ystod 2024-25 i waith Llywodraeth Cymru yng nghyswllt yr **Adolygiad Diogelu Unedig Sengl**.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nodir bod y fframwaith Adolygiad Diogelu Unedig Sengl wedi cael ei "lansio" yn ffurfiol ym mis Hydref 2024 a'i sefydlu fel y sail ddiffiniedig ar gyfer cynnal pob adolygiad diogelu.

Mae'n amlwg yn rhy gynnar o lawer i roi sylwadau effeithiol ar effaith y fframwaith, ar wahân i'n sylw cynharach ynghylch y rhaglen hyfforddiant gadarnhaol iawn ac ynghylch yr heriau o ran cael gafael ar adolygwyr. Mae'r Bwrdd yn croesawu ymrwymiad tîm yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, i sicrhau adolygiad strategol o gynnydd ac effaith ar ddiwedd y flwyddyn lawn gyntaf.

## Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol – Diweddariad 13 Tachwedd 2025

Yn rhan o'i ddyletswydd statudol gynhenid i gynghori Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar "effeithiolrwydd trefniadau diogelu yng Nghymru", cytunodd y Bwrdd Cenedlaethol i gyflawni "rôl goruchwylio cynghorol" wrth fonitro'r ymrwymiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r chwe argymhelliad a wnaed i Lywodraeth Cymru gan yr Ymchwiliad. Ers ei sefydlu ym mis Mawrth 2015, aeth yr Ymchwiliad ati i ymchwilio i weld a yw cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill yng Nghymru a Lloegr – gan gynnwys sefydliadau crefyddol, chwaraeon, ysgolion, dalfeydd, lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol – wedi cyflawni eu cyfrifoldebau'n briodol i amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol a rhag achosion lle mae pobl eraill yn camfanteisio arnynt yn rhywiol.

Yma, mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn rhoi sylwadau ar y graddau y mae'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru yn mynd rhagddynt. Mae sylwadau'r Bwrdd Cenedlaethol wedi'u seilio yn unig ar adroddiadau monitro chwarterol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, gyda chymorth sgwrs reolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru. Gwnaeth yr adroddiad terfynol 20 o argymhellion, ac roedd chwech ohonynt wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru, sef:

A1. **Set ddata craidd unigol sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant** – sydd i bob pwrpas yn gofyn am welliannau o ran casglu data, cysondeb a phroffilio poblogaeth, ymysg elfennau eraill. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru.

*Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn cydnabod bod cynnydd amlwg yn cael ei wneud o ran sefydlu set ddata gydlynol ac integredig. Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei symud yn ei flaen fel cam gweithredu â blaenoriaeth yn y Strategaeth 10 mlynedd ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol.*

A2. **Awdurdodau Amddiffyn Plant ar gyfer Cymru a Lloegr.** Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru gan nodi, fodd bynnag, bod Llywodraeth Cymru yn dadlau bod y swyddogaethau a argymhellwyd ar gyfer awdurdod o'r fath eisoes wedi'u bodloni gan y fframwaith statudol sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru a sefydlu'r Bwrdd Cenedlaethol.

*Yn ein hadroddiad blynyddol blaenorol, argymhellodd y Bwrdd Cenedlaethol i Weinidogion Cymru y dylai Llywodraeth Cymru gychwyn "adolygu cwmpas, rôl a chylch gwaith y Bwrdd Cenedlaethol, ddeng mlynedd a mwy ar ôl ei sefydlu".*

*Ar lefel y Deyrnas Unedig, mynegodd archwiliad y Farwnes Casey (ym mis Mai 2025) o achosion lle mae grwpiau'n camfanteisio ar blant yn rhywiol bryderon am gymhlethdod llywodraethiant ym maes diogelu, gan nodi bod y sefydliadau niferus a'r modd y mae cyfrifoldebau wedi'u rhannu yn esgor ar heriau o ran arweinyddiaeth glir a phendant, y gallu i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth, a'r modd y caiff gwybodaeth ei rhannu.*

*Yna (ym mis Hydref 2025), cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i gomisiynu adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu yng Nghymru. Rydym yn rhagweld y bydd yr adolygiad hwnnw'n ystyried a yw'r trefniadau presennol yn bodloni'r argymhelliad hwn.*

A3. **Gweinidog y Cabinet dros Blant.** Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn wedi'i gyflawni a'i fod yn parhau i fod yn rhan o'r portffolios gweinidogol a sefydlwyd yn flaenorol yng Nghymru.

*Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn cytuno bod yr argymhelliad hwn wedi'i gyflawni.*

*Rydym yn nodi bod hwn wedi'i dderbyn oherwydd bod Llywodraeth Cymru a'i Gabinet wedi llofnodi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n cynnwys gofyniad bod pob cyngor i Weinidogion Cymru yn parchu'r Confensiwn a hawliau plant. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, bu dau Weinidog a dau Ddirprwy Weinidog yn dal swyddi allweddol yng nghyswllt plant:*

- *Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol*
- *Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*
- *Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant*
- *Gweinidog y Gymraeg ac Addysg*

A4. **Ymwybyddiaeth y cyhoedd**. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru.

*Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn fodlon bod Llywodraeth Cymru yn gallu dangos tystiolaeth o weithgarwch i gefnogi'r argymhelliad hwn ac mae'n amlwg ei bod wedi ymrwymo i hyn fel maes ar gyfer datblygu ac arloesi parhaus.*

*Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn nodi hefyd y bydd ymgyrch cyhoeddusrwydd yn cael ei gynnal yn flynyddol gan grŵp y ffrwd waith "Atal", a fydd yn rhan o'r Strategaeth 10 mlynedd ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol.*

A13. **Adrodd mandadol am gam-drin plant yn rhywiol mewn rhai amgylchiadau.** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor ond mae o'r farn bod hyn yn gofyn am raglen waith sylweddol i archwilio'r goblygiadau ar gyfer fframweithiau statudol sydd eisoes yn bodoli sy'n effeithio ar waith adrodd. Mae rhaglen waith gymhleth ar y gweill i asesu'r trefniadau presennol a'r potensial i'w cryfhau.

*Mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi cael diweddariad manwl am waith Llywodraeth Cymru hyd yma, yng nghyd-destun deddfwriaeth a phwerau sydd wedi ac sydd heb eu datganoli ac yng nghyd-destun camau nesaf posibl.*

A16. **Gwarant genedlaethol o gymorth therapiwtig arbenigol i blant sy'n ddioddefwyr.**

Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru.

*Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn cymeradwyo ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhelliad hwn. Comisiynodd Llywodraeth Cymru gorff allanol i fapio cymorth i blant ac oedolion yng Nghymru y mae cam-drin plant yn rhywiol wedi effeithio arnynt. Nododd y gwaith hwnnw fylchau mewn darpariaeth arbenigol ar gyfer plant ac oedolion.*

*Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i symud y gwaith hwn yn ei flaen ac i adrodd wrth y Bwrdd Cenedlaethol.*

## Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn

Ym mis Chwefror 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun a oedd yn egluro'r mesurau y bydd yn eu cymryd ar draws Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o gamdriniaeth. Cafodd y mesurau hynny eu cyflwyno dan dri amcan allweddol:

**Amcan Allweddol 1** – Mae pobl hŷn yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol a chydag urddas.

**Amcan Allweddol 2** – Mae pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig neu drais rhywiol yn gallu cael gafael ar gymorth perthnasol.

**Amcan Allweddol 3** – Mae pobl hŷn yn cael eu hamddiffyn rhag wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ynghylch sut yr oedd camau gweithredu blwyddyn un (Chwefror 2024-Chwefror 2025) wedi'u cyflawni. Caiff y rhain eu crynhoi fel a ganlyn gan Lywodraeth Cymru:

» Mae gwaith wedi dechrau ar olynydd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia, dan arweiniad canfyddiadau gwerthuso a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid.

» Datblygwyd Pecyn Cymorth Llesiant Preswylwyr ar y cyd ag Age Cymru i sicrhau y gall preswylwyr cartrefi gofal fynegi eu hanghenion drwy gydol eu siwrnai o ran gofal.

» Yn 2024/25 llwyddwyd drwy'r Gronfa Gymorth i Ofalwyr i roi taliadau i 11,687 o ofalwyr.

» Llwyddwyd i gryfhau ymgysylltu â'r cyhoedd.

» Cyhoeddwyd y Cod Ymarfer i Llais, gan wella mynediad at wasanaethau, ymwneud â gwasanaethau a dylanwad dros lunio gwasanaethau.

» Cafodd yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ei lansio ym mis Hydref 2024.

Mae camau gweithredu pellach dan y tri amcan allweddol wedi'u hegluro erbyn hyn ar gyfer Blwyddyn Dau.

Er bod y Bwrdd Cenedlaethol yn croesawu dyfodiad Cynllun Gweithredu Cenedlaethol yn 2024, cododd gwestiynau hefyd ynghylch ei ehangder a'i gyrhaeddiad o ran y rôl allweddol sy'n ymwneud â diogelu statudol ac ynghylch effaith asiantaethau statudol amddiffyn oedolion o ran bodloni Amcan Allweddol 3, sef atal a lliniaru risg; mae'n gwestiwn sydd heb ei archwilio i raddau helaeth o hyd yng nghyd-destun y Cynllun. Mae hefyd yn siomedig na chafodd rhai o'r camau gweithredu allweddol ar gyfer Blwyddyn Un eu symud yn eu blaen. Roedd y pryderon hynny fel a ganlyn yn fras:

» Datblygu a chyhoeddi canllawiau ynghylch meysydd ymarfer a nodir yn aml gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ac y cyfeiriwyd atynt yn Adroddiad Thematig Oedolion y Bwrdd Cenedlaethol/ Prifysgol Metropolitan Manceinion 2023;

» "Canllawiau Ategol Anstatudol ar Hunanesgeulustod" y bwriedid eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2025;

»

- Canllawiau ymarfer ynghylch ffyrdd o adnabod ac atal camdriniaeth ariannol a chanllawiau i ymarferwyr ynghylch rhannu gwybodaeth yn briodol pan fyddant yn pryderu am ddiogelu oedolion;

- Er hynny, rydym yn croesawu'r ffaith bod y rhain wedi'u cynnwys yn awr mewn camau gweithredu ar gyfer Blwyddyn Dau a byddwn yn rhoi sylw manwl i'r datblygiadau hyn yn ystod y cyfnod sydd i ddod.

Byddai'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar sail amcanion y Cynllun yn elwa hefyd o rai cyfeiriadau at y **canlyniadau disgwyliedig i oedolion hŷn**. Yn ogystal, oherwydd bod rhai camau gweithredu'n cael eu disgrifio fel rhai *"parhaus"*, nid yw'n glir sut y bydd cynnydd tuag at amcanion penodol yn cael ei fesur. Er mwyn monitro a chofnodi effaith y Cynllun yn fwy tryloyw, byddai'n ddefnyddiol egluro sut y penderfynir bod camau gweithredu wedi'u cwblhau, pa ganlyniadau a ddisgwylir, a beth y mae'n rhaid ei gyflawni er mwyn i'r gwaith gael ei ystyried yn llwyddiannus ac yn effeithiol o ran atal cam-drin pobl hŷn.

Fel yr ydym wedi nodi'n gynharach yn yr adroddiad hwn, mae gwybodaeth gadarn yn hanfodol nid yn unig er mwyn deall lefelau angen a phatrymau niwed ond hefyd er mwyn hybu gweithgarwch gwella a galluogi arweinwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am y ffordd orau o ddyrannu adnoddau ar gyfer diogelu. Yn ein hargymhellion i Weinidogion yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2019-2020, gwnaethom nodi fel a ganlyn:

*"Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Canllawiau Technegol y Fframwaith Perfformiad Gofal Cymdeithasol yn cynnwys gwybodaeth am achosion o gam-drin pobl hŷn, trwy gasglu data sydd wedi'i ddadansoddi yn ôl grŵp oedran."*

Felly, rydym yn falch o nodi'r cynnydd a wnaed o ran yr argymhelliad hwn.

Un datblygiad nodedig yw cyhoeddi am y tro cyntaf ddata sy'n nodi nifer yr oedolion a gafodd ofal a chymorth yn ystod y flwyddyn (2023-2024) ac a oedd hefyd yn destun ymholiadau diogelu a arweiniodd at gynllun amddiffyn. Mae'n ddatblygiad pwysig sydd i'w groesawu. Mae'r data hwn wedi'i gyhoeddi yn ddiweddar ar dudalennau StatsCymru Llywodraeth Cymru ar y we ac mae'n taflu goleuni ar broffil oedolion sy'n cael gofal a chymorth, ar lefel awdurdodau lleol ac ar lefel Cymru, yn ôl categori "camdriniaeth", grŵp oedran a rhywedd.

Deellir bod y data yn y cyhoeddiad cyntaf a diweddar hwn yn cael ei ystyried yn "ystadegau swyddogol o dan ddatblygiad" (Y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau) nes y bydd problemau data a gydnabyddir wedi'u gwella. Er hynny, gyda gwaith dadansoddi priodol a gwaith adrodd rheolaidd, mae'n ddatblygiad i'w groesawu o ran sefydlu conglfeini pwysig set ddata ynghylch diogelu oedolion ar gyfer Cymru.

## Datblygiadau eraill sy'n berthnasol i ddyletswydd strategol 2

### Sganio'r gorwel

Rhan bwysig o weithgarwch y Bwrdd yw cadw golwg ar faterion sy'n dod i'r amlwg mewn meysydd polisi eraill a thu hwnt i ffiniau Cymru a allai fod yn arwyddocaol i ddiogelu yng Nghymru.

Yr hyn sy'n berthnasol yma yw ein haelodaeth o Rwydwaith Diogelu'r Pum Gwlad (Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, Iwerddon a'r Alban) sy'n cynllunio, yn cynnal ac yn cyflwyno rhaglen o waith polisi perthnasol drwy gydol y flwyddyn.

### Sefydliadau a lleoliadau crefyddol

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi cael nifer o awgrymiadau anffurfiol o wahanol ffynonellau, sy'n ymwneud â'r bwlch mawr yng nghyfarpar a chapasiti Cymru i ddeall graddau heriau diogelu sy'n effeithio ar garfan sylweddol o unigolion sy'n gweithio mewn lleoliadau neu sefydliadau crefyddol neu fel aelodau ohonynt; mae sawl un o'r achosion perthnasol dan sylw wedi cynnwys y ffurfiau mwyaf erchyll ar gamdriniaeth gorfforol a rhywiol ac wedi cynnwys camddefnydd o rym ac awdurdod proffesiynol.

Cafodd rhai o'r pryderon hynny eu hamlygu'n helaeth gan waith yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, a daethant i'r amlwg unwaith eto ar ôl cyhoeddi Adroddiad Makin yn Lloegr (Tachwedd 2024 www.churchofengland.org/safeguarding/reviews-and-reports/john-smyth-review). Yn fwy diweddar, yma yng Nghymru, mae pryderon sylweddol wedi codi wrth ystyried adroddiadau o ddiddordeb cenedlaethol, er enghraifft ynghylch Ynys Bŷr ac ynghylch yr Eglwys yng Nghymru.

Mae'r enghreifftiau yr ydym yn ymwybodol ohonynt, neu sydd wedi denu sylw cyfryngau cenedlaethol, hefyd yn cynnwys cyfleoedd o bwys i ddysgu ar y cyd yn genedlaethol ar draws meysydd statudol ac anstatudol. Gan gofio galwadau'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (nad ydynt wedi'u hateb) am "Awdurdod Plant Cenedlaethol", a gafodd eu hybu ymhellach gan Adroddiad Casey (www.gov.uk/government/publications/national-audit-on-group-based-child-sexual-exploitation-and-abuse), credwn fod y bwlch hwn, yng nghyswllt sefydliadau crefyddol yn benodol, yn haeddu sylw a gwaith datblygu, serch ei faint posibl, yr amrywiaeth o sefydliadau a'r cymhlethdod dan sylw. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ffordd o sicrhau goruchwyliaeth, gwaith craffu a thryloywder cenedlaethol effeithiol a chydlynol, ac atebolrwydd i raddau llai o lawer, mewn lleoliadau a defodau crefyddol ledled Cymru ac mae'n gyfle a gollir o safbwynt dysgu llawer yn genedlaethol am ddiogelu. Rydym yn ymwybodol bod rhai camau cychwynnol i'r cyfeiriad hwn wedi'u hysgogi gan Dîm Diogelu ac Eiriolaeth Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys un cyfarfod â sefydliadau crefyddol yn 2021-23, ond nid ydym yn credu bod unrhyw ddatblygiadau pellach wedi dilyn y cyfarfod hwnnw.

# Dyletswydd Strategol 3 y Bwrdd Cenedlaethol: Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny (A.132 (2)).

Mae trefniadau'r Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer rhwydweithio â'r gymuned ddiogelu broffesiynol yn ei hystyr ehangaf ar draws Cymru gyfan yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth am faterion cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg. O'i gymryd gyda'r wybodaeth lai moel hon, mae capasiti'r Bwrdd Cenedlaethol i gomisiynu ymchwil annibynnol ddibynadwy wedi chwarae rôl gynyddol bwysig o safbwynt amlygu meysydd lle mae angen newid rhaglenni, systemau neu bolisi, gan gynnwys y meysydd lle mae gan lywodraeth rôl hollbwysig i'w chwarae.

## Argymhellion blaenorol i Weinidogion a'r cynnydd a wnaed hyd yma

Gyda chytundeb y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, bydd unrhyw argymhellion a wnaed yn flaenorol gan y Bwrdd Cenedlaethol yn dal i gael eu cynnwys yn ein hadroddiadau blynyddol nes y byddant wedi'u cwblhau, fel y cytunwyd.

## Llywodraethiant

*Rôl, cwmpas a chylch gwaith Bwrdd Diogelu Annibynnol Cymru*

**Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad ffurfiol o rôl, cwmpas a chylch gwaith y Bwrdd Cenedlaethol**, mewn ymgynghoriad agos ag aelodau presennol y Bwrdd Cenedlaethol, gyda'r bwriad o adeiladu ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma a'i wella.

*Diweddariad mis Hydref 2025*

Mae'r Bwrdd yn croesawu'r cyhoeddiad Gweinidogol ym mis Medi, sef bod Llywodraeth Cymru yn cychwyn adolygiad cenedlaethol o drefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu, yn unol ag argymhelliad y Bwrdd i Weinidogion yn 2023-24. Edrychwn ymlaen at ymgysylltu â'r broses.

# Argymhellion i Weinidogion 2024-2025

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn gwneud dau argymhelliad.

## Argymhelliad 1 – Adroddiad Blynyddol ynghylch Gwybodaeth Genedlaethol am Ddiogelu

Mae'r adroddiad hwn wedi cyfeirio drwyddo draw at absenoldeb cyffredin, ac arwyddocaol o safbwynt strategol yng Nghymru, unrhyw ffynhonnell genedlaethol unigol ac awdurdodol o wybodaeth data sy'n rhoi dadansoddiad hygyrch i'r cyhoedd ar ffurf naratif yn flynyddol o ddata'n ymwneud â diogelu. Eto i gyd, rydym yn gwybod nad yw hynny oherwydd diffyg data ynddo'i hun sy'n bodoli mewn amryw ffurfiau niferus. Wrth gydnabod y bwlch hwn, mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi bod yn cymryd rhan mewn rhaglen waith sydd wedi bod yn ymwneud ag ysgogi a chefnogi Byrddau Diogelu Rhanbarthol a rhanddeiliaid perthnasol eraill i fynd i'r afael yn effeithiol â'r gwactod sy'n bodoli yn y sector diogelu cyfan.

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi profi rhywfaint o lwyddiant i'r cyfeiriad hwn, yn enwedig wrth sefydlu'r *Pum Maes Effeithiolrwydd Diogelu*, (gweler tudalen 8) yn rhan o fframwaith Adroddiadau Blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol. Mae'r Bwrdd hefyd yn parhau i flaenoriaethu gwaith ar fynd ar drywydd cyfleoedd i wneud hynny, a fydd yn cael ei adlewyrchu unwaith eto yn ein Cynllun Gwaith ar gyfer 2026/27.

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd wrthi'n hybu'r gwaith hynod o arloesol sy'n cael ei hyrwyddo'n arbennig gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg ac sy'n cael ei adlewyrchu gan eraill, yn enwedig Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro. Rydym wrthi ar hyn o bryd, er enghraifft, yn cynllunio digwyddiadau bord gron ar lefel uwch i fanteisio ar hynny ac ar fentrau eraill datblygu data, yn rhan o'n partneriaeth Llywio'r Dyfodol barhaus â Phrifysgol Metropolitan Manceinion.

Fel yr amlinellir ar dudalen 14 yr adroddiad hwn, rydym hefyd wedi gofyn i Brifysgol Metropolitan Manceinion archwilio'r holl ddata cyhoeddus perthnasol ar gyfer y cyfnod blaenorol hyd yma, er mwyn ei gwneud yn bosibl dadansoddi ar lefel Cymru gyfan ac archwilio unrhyw rwystrau a chyfleoedd amlwg i ddatblygu dull cydlynol o ymdrin â naratif bob blwyddyn. Rydym yn parhau i fod yn ymwybodol dros ben mai dim ond drwy fynd i'r afael â'r broblem strategol hon y gall y Bwrdd Cenedlaethol gyflawni'n gynhwysfawr ei Ddyletswydd Statudol, sef *"cynghori Gweinidogion ar effeithiolrwydd trefniadau diogelu yng Nghymru"*, a bod ein capasiti i wneud hynny'n cael ei gyfyngu'n sylweddol heb naratif craidd o'r fath. Hwyrach nad yw meithrin hyder ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn ehangach mewn trefniadau diogelu statudol erioed wedi bod mor hollbwysig ag y mae yn awr. Ym marn y Bwrdd Cenedlaethol, mae ennyn yr hyder hwnnw'n dibynnu yn helaeth iawn ar allu *"Adrodd Stori Genedlaethol Diogelu"*. Yn syml iawn, ar hyn o bryd, nid yw'r modd i wneud hynny'n bodoli.

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn canmol y gwaith a gyflawnir i'r perwyl hwn dan faner *"Partneriaeth Llywio Dyfodol Diogelu Prifysgol Metropolitan Manceinion"*, ac mae'n credu y gall barhau i wneud cyfraniad galluogol at gryfhau grym gwaith dadansoddi metrigau wrth ddatblygu naratif cenedlaethol parhaus.

**Argymhellir i Weinidogion y dylai'r llywodraeth flaenoriaethu datblygu Adroddiad Blynyddol effeithiol a hygyrch ynghylch Gwybodaeth Genedlaethol am Ddiogelu, a fydd yn barod i'w gyhoeddi yn ystod trydydd chwarter unrhyw flwyddyn benodol, a hynny o fis Medi 2026 ymlaen.**

## Argymhelliad 2 – Sefydliadau a lleoliadau crefyddol

Fel y nodwyd, rydym wedi cael nifer o awgrymiadau anffurfiol bod yna fwlch mawr yng nghyfarpar a chapasiti Cymru i ddeall graddau heriau diogelu sy'n effeithio ar garfan sylweddol o unigolion sy'n gweithio mewn lleoliadau neu sefydliadau crefyddol neu fel aelodau ohonynt; mae sawl un o'r achosion perthnasol dan sylw wedi cynnwys y ffurfiau mwyaf erchyll ar gamdriniaeth gorfforol a rhywiol ac wedi cynnwys camddefnydd o rym ac awdurdod proffesiynol, ac mae'n amlwg bod rhywfaint o'r gamdriniaeth honno wedi bod yn gamdriniaeth sefydliadol. Cafodd rhai o'r pryderon hynny eu hamlygu'n helaeth gan waith yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, ac maent wedi codi'n fwy diweddar wrth ystyried adroddiadau o ddiddordeb cenedlaethol a oedd yn cynnwys rhai ynghylch Ynys Bŷr, yr Eglwys yng Nghymru, Adroddiad Meakin yn Lloegr ac eraill. Mae'r enghreifftiau yr ydym yn ymwybodol ohonynt, neu sydd wedi denu sylw cyfryngau cenedlaethol, hefyd yn cynnwys cyfleoedd o bwys i ddysgu ar y cyd yn genedlaethol ar draws meysydd statudol ac anstatudol.

Gan gofio galwadau am "Awdurdod Plant Cenedlaethol", a gafodd eu hybu ymhellach gan y Comisiynydd Plant ac Adroddiad Casey ymhlith eraill, credwn fod y bwlch hwn, yng nghyswllt sefydliadau crefyddol yn benodol, yn haeddu sylw a gwaith datblygu, serch ei faint posibl, yr amrywiaeth o sefydliadau a'r cymhlethdod dan sylw. Ar hyn o bryd, i bob pwrpas, nid oes unrhyw ffordd o sicrhau hyd yn oed rhywfaint o waith craffu a thryloywder cenedlaethol cydlynol, ac atebolrwydd i raddau llai o lawer (hyd yn oed os "atebolrwydd llac" yn unig ydyw), mewn lleoliadau a defodau crefyddol. Rydym yn ymwybodol bod rhai camau cychwynnol i'r cyfeiriad hwn wedi'u hysgogi gan Dîm Diogelu ac Eiriolaeth Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys un cyfarfod â sefydliadau crefyddol yn 2021-23, ond nid ydym yn credu bod unrhyw ddatblygiadau pellach wedi dilyn y cyfarfod hwnnw.

**Argymhellir i Weinidogion bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad cenedlaethol o ddiogelu mewn sefydliadau crefyddol yng Nghymru.**

Dylai'r adolygiad hwnnw gyflawni'r canlynol:

- Cwmpasu a mapio ystod, nifer, a 'chyrhaeddiad' sefydliadau crefyddol yng Nghymru a nodi graddau a natur heriau diogelu i'w hystyried.
- Nodi unrhyw faterion amlwg â blaenoriaeth i'w hystyried.
- Ymgysylltu â'r 'sector' yn ystod yr ymarfer hwn, i'r graddau y gellir adnabod 'sector'.
- Ystyried datblygu blaenraglen waith er mwyn ysgogi mwy o amlygrwydd, gwella atebolrwydd cyhoeddus a hyrwyddo mwy o ddysgu ar y cyd.

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru

National Independent Safeguarding Board Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Dysgwch fwy

www.bwrdddiogelu.cymru

@NISBwales

safeguardingwales